# YR ATODLEN

## Manylion ychwanegol ynglŷn â rhai ceisiadau

## Ceisiadau a wneir o dan Ddeddf 1983

*Ceisiadau sy'n ymwneud â chymeradwyo person wrth werthu neu roi cartrefi symudol*

**56.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan baragraff 8(1E) (gwerthu cartref symudol) neu 9(2) (rhoi cartref symudol) o Bennod 2 o Ran 1 o Atodlen 1 i Ddeddf 1983.

(2) Y dogfennau penodedig yw—

(a) copi o unrhyw ddogfennau a gyflwynwyd i berchennog y safle gan y meddiannydd o dan baragraff 8(1A) o Bennod 2 o Ran 1 o'r Atodlen honno;

(b) unrhyw ohebiaeth berthnasol a gafodd y meddiannydd gan berchennog y safle, i'r perwyl nad oedd perchennog y safle yn cymeradwyo'r gwerthiant neu'r rhodd; ac

(c) yn achos cais brys o dan baragraff 8 neu 9 o Bennod 2 o Ran 1 o'r Atodlen honno, unrhyw ddogfennau sy'n cynnwys y dystiolaeth a anfonwyd ynghyd â'r cais o dan baragraff (2) o reoliad 11 (ceisiadau brys o dan Ddeddf 1983 mewn perthynas â gwerthu neu roi cartref symudol).

(3) Yr ymatebydd penodedig yw perchennog y safle.